# Your Money

## A Budget for Growth and Jobs

October 2012

**The Draft Budget for 2013-14 sets out the Welsh Government's spending plans for the next two years. Growing the economy and creating jobs will continue to be at the heart of our Budget proposals and everything we do as a Government.**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Our Draft Budget proposals are aligned to our Programme for Government which sets out what we are trying to achieve, the key actions we will take to deliver improvements and how we will monitor progress.

Despite significant cuts to the Welsh Budget by the UK Government, we have maximised the resources available to support the priorities that matter to the people of Wales – creating jobs, investing in key public services and building 21st Century networks for transport, IT and energy across Wales.

Our spending plans are designed to ensure equality, inclusion and social justice and aim to mitigate the worst impacts of the UK Government's actions and protect the most vulnerable in our society. We are continuing to protect our spending for schools, social services, health and universal benefits.

The Budget includes a range of measures to support employment, and to help Welsh businesses compete and grow. Through better procurement and a strategic approach to capital investment, we will boost investment, protect and improve public services and through community benefits clauses in contracts deliver new local employment, training and apprenticeship opportunities that will benefit our communities.

We are also developing a range of new funding initiatives to support much needed investment in our economic infrastructure, housing and public services.

Through our Draft Budget, we are allocating an additional £175m to support delivery of key investment priorities in the Wales Infrastructure Investment Plan for Growth and Jobs. This package will help to boost the construction sector, create jobs and enable sustainable economic growth.

### Allocations comprise:

- £40m for the A465 Heads of the Valley Dualling Programme;
- £25m for improvements to the A55 Conwy Tunnel;
- £18m to support the redevelopment of Morriston Hospital, Swansea;
- £10m in 2014-15 to support our Next Generation Broadband Programme;
- £12m to support delivery of more than 500 additional affordable homes across Wales, under the Welsh Housing Partnership scheme;
- £10m for improving domestic energy efficiency for over 1,600 households;
- £13m for Flying Start, our early years programme;
- £15m in 2013-14 to accelerate a number of schemes under the 21st Century Schools programme;
- £12m for the University Hospital Llandough Adult Acute Unit and Reshaping Mental Health Service at Glanrhyd Hospital in Bridgend;
- £10m in 2014-15 to accelerate the new post-16 Further Education campus for Cardiff and Vale College in Cardiff city centre; and
- £10m to help protect properties the length and breadth of Wales from flood and coastal erosion.

This £175m package will deliver real benefits to Wales, creating or supporting more than 3000 jobs over the next two years, providing longer term growth benefits and better infrastructure for key public services.

The Draft Budget builds on the three year allocations we announced in the Budget 2012-13, including £129m for our 'Five for a Fairer Future' commitments and £288m for the health service to sustain and modernise high quality services.

Taken together, these measures demonstrate how we are delivering on our vision for a more prosperous economy, whilst continuing to improve the quality of life and wellbeing of everyone and protecting those who are being hit hardest during these challenging times.



Jane Hutt
Minister for Finance and
Leader of the House

WG16334

# Eich Arian

## Cyllideb ar gyfer Twf a Swyddi

Hydref 2012

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

**Mae Cyllideb Ddrafft 2013-14 yn disgrifio cynlluniau gwariant Llywodraeth Cymru ar gyfer y ddwy flynedd nesaf. Bydd ein cynigion ar gyfer y Gyllideb yn parhau i ganolbwyntio ar greu swyddi a sicrhau bod yr economi yn tyfu, a hynny fydd wrth wraidd popeth rydym ni, fel Llywodraeth, yn ei wneud.**

Mae'r cynigion yn ein Cyllideb Ddrafft yn cyd-fynd â'n Rhaglen Lywodraethu, sy'n nodi'r hyn rydym yn ceisio'i gyflawni, y prif gamau y byddwn yn eu cymryd i sicrhau gwelliannau, a'r ffordd y byddwn yn monitro hynt y gwaith.

Er gwaethaf y ffaith fod Llywodraeth y DU wedi cwtogi Cyllideb Cymru yn sylweddol, rydym wedi gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael er mwyn cefnogi'r blaenoriaethau sy'n bwysig i bobl Cymru – creu swyddi, buddsoddi mewn gwasanaethau cyhoeddus allweddol a chreu rhwydweithiau'r unfed ganrif ar hugain ledled Cymru ar gyfer trafnidiaeth, TG ac ynni.

Bwriad ein cynlluniau gwariant yw sicrhau cydraddoldeb, cynhwysiant a chyfiawnder cymdeithasol, a'u nod yw ceisio lleddfu effeithiau gwaethaf polisïau Llywodraeth y DU ac amddiffyn y bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas. Rydym yn parhau i ddiogelu ein gwariant ar ysgolion, y gwasanaethau cymdeithasol, iechyd a'r buddion cyffredinol.

Mae'r Gyllideb yn cynnwys amrywiaeth o fesurau i gefnogi cyflogaeth, ac i helpu busnesau Cymru i gystadlu a thyfu. Drwy gaffael yn well a mynd ati i fuddsoddi cyfalaf mewn modd strategol, byddwn yn rhoi hwb i fuddsoddi ac yn amddiffyn a gwella gwasanaethau cyhoeddus. Byddwn yn defnyddio cymalau manteision cymunedol mewn contractau er mwyn creu swyddi, cyfleoedd hyfforddi a phrentisiaethau newydd lleol, a fydd o fantais i'n cymunedau.

Rydym hefyd yn datblygu amrywiaeth o fentrau ariannu newydd er mwyn gallu buddsoddi yn ein seilwaith economaidd, ein tai a'n gwasanaethau cyhoeddus – rhywbeth sydd ei angen yn fawr.

Yn ein Cyllideb Ddrafft, rydym yn neilltuo £175m yn ychwanegol er mwyn helpu i gyflawni prif flaenoriaethau buddsoddi'r Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru i Hybu Twf a Swyddi. Bydd y pecyn buddsoddi hwn yn helpu i hybu'r sector adeiladu, creu swyddi a galluogi'r economi i dyfu mewn ffordd gynaliadwy.

**Mae'r dyraniadau yn cynnwys:**

- £40m ar gyfer Cynllun Deuoli'r A465 Blaenau'r Cymoedd;
- £25m ar gyfer gwelliannau i Dwnnel Conwy ar yr A55;
- £18m er mwyn ailddatblygu Ysbyty Treforys, Abertawe;
- £10m yn 2014-15 ar gyfer Rhaglen Band Eang y Genhedlaeth Nesaf;
- £12m er mwyn helpu i ddarparu mwy na 500 o gartrefi fforddiadwy ychwanegol ledled Cymru, fel rhan o gynllun Partneriaeth Tai Cymru;
- £10m er mwyn gwella effeithiolrwydd ynni domestig ar fwy na 1,600 o aelwydydd;
- £13m ar gyfer Dechrau'n Deg, ein rhaglen ar gyfer y blynyddoedd cynnar;
- £15m yn 2013-14 er mwyn cyflymu'r broses o gyflwyno amryw o gynlluniau o dan y rhaglen Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif;
- £12m ar gyfer yr Uned Acíwt ar gyfer Oedolion yn Ysbyty Athrofaol Llandochau ac Ad-drefnu Gwasanaethau Iechyd Meddwl yn Ysbyty Glanrhyd ym Mhen-y-bont ar Ogwr.
- £10m yn 2014-15 er mwyn cyflymu'r broses o ddatblygu'r campws Addysg Bellach ôl-16 newydd ar gyfer Coleg Caerdydd a'r Fro yng nghanol dinas Caerdydd;
- £10m er mwyn helpu i amddiffyn eiddo ym mhob cwr o Gymru rhag llifogydd ac erydu arfordirol.

Bydd y pecyn £175m hwn yn dod â budd gwirioneddol i Gymru, gan greu neu gefnogi mwy na 3000 o swyddi dros y ddwy flynedd nesaf. Bydd hefyd yn helpu i greu twf yn y tymor hir ac yn gwella'r seilwaith ar gyfer gwasnaethau cyhoeddus allweddol.

Mae'r Gyllideb Ddrafft yn adeiladu ar y dyraniadau tair blynedd a gyhoeddwyd yng Nghyllideb 2012-13, gan gynnwys £129m ar gyfer ein hymrwymiadau 'Pump am Ddyfodol Tecach', a £288m i gynnal a moderneiddio gwasanaethau o safon uchel yn y gwasanaeth iechyd.

Gyda'i gilydd, mae'r mesurau hyn yn dangos ein bod yn gwireddu ein gweledigaeth o sicrhau economi fwy llewyrchus, yn parhau i wella ansawdd bywyd a lles pawb, ac yn amddiffyn y rheini sy'n cael eu gwasgu galetaf yn ystod y cyfnod heriol hwn.



Jane Hutt

Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ